Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Blagur Cyf**

**Hen Ysgol**
**Rhydyclafdy**
**Pwllheli**
**LL53 7YW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

31/03/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Meithrinfa Blagur Cyf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Meithrinfa Blagur Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 37 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma’r arolygiad cyntaf ers i’r gwasanaeth ailgofrestru ar 18 Mawrth 2019. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu ac maent wedi ffurfio perthynas gadarnhaol gyda'r staff a'i gilydd. Gwnânt ddewisiadau ynglŷn â sut maent yn treulio eu hamser a maent yn rhyngweithio'n dda â'u ffrindiau. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac maent yn hyderus o ran gofyn i'r staff am gymorth os oes ei angen arnynt.

Mae'r staff yn deall y rhan fwyaf o'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn darparu gofal ymatebol ac yn defnyddio dulliau cadarnhaol i annog y plant i ryngweithio'n dda â'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu, ac mae rhai yn ansicr o'r arferion gorau cyfredol o ran newid clytiau. Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau priodol i gynorthwyo dysgu a datblygiad y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safle'n ddiogel ac mewn cyflwr addas. Fodd bynnag, nid oes ganddynt systemau priodol ar waith i fonitro a rheoli risgiau neu ddiogelwch tân yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yr amgylchedd yn groesawgar i’r plant ac yn darparu detholiad o deganau ac offer addas, gan gynnwys rhai cyfleoedd i archwilio deunyddiau naturiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau yn gyffredinol, ond mae angen gwelliant mewn perthynas â gweithdrefnau recriwtio diogel a gwiriadau addasrwydd. Rydym wedi dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth mewn perthynas â'r mater hwn. Mae angen rhywfaint o welliant hefyd o ran lleoli staff i sicrhau y cedwir at y cymarebau oedolyn:plentyn priodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sefydlu partneriaethau addas gyda rhieni, gan sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am ddysgu a datblygiad eu plant.

## Llesiant

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu, ac yn gwneud penderfyniadau priodol ynghylch sut maent yn treulio eu hamser. Maent yn symud yn rhydd o gwmpas y gweithgareddau sydd ar gael ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r plant yn gwybod y gallant ofyn am gymorth pan fydd ei angen ac maent yn hyderus i wneud hynny. Er enghraifft, maent yn gwybod y gallant ofyn i'r staff am gymorth i ddewis llyfr i'w ddarllen gyda'i gilydd o'r silff lyfrau.

Mae gan y plant ymdeimlad o sicrwydd gan eu bod yn derbyn gofal gan staff y maent wedi ffurfio cydberthynas gynnes â nhw. Maent yn teimlo yn gyfforddus yn gofyn i'r staff am gysur neu sicrwydd pan fydd angen. Er enghraifft, trwy nodi eu bod am gael mwythau pan fyddant yn ansicr am bobl neu sefyllfaoedd newydd. Mae'r plant yn awyddus i rannu eu cyflawniadau gyda'r staff, gan wybod y byddant yn cael eu dathlu. Er enghraifft, maent yn awyddus i ddangos i'r staff pan fyddant yn llwyddo i greu adeileddau gyda'r blociau anferth ac yn gwenu pan gânt ganmoliaeth. Mae'r plant yn gwneud ffrindiau ac yn sgwrsio gyda'i gilydd yn ystod amser chwarae ac amser cinio, gan rannu llawer o chwerthin a gwenu wrth wneud hynny.

Mae'r plant yn gwrando yn dda ac yn hapus i helpu gyda thasgau a dilyn cyfarwyddiadau. Er enghraifft, wrth ymolchi eu dwylo a defnyddio'r toiled cyn cinio. Mae'r plant yn chwarae'n dda gyda'i gilydd. Maent yn rhannu teganau, yn cymryd eu tro, ac yn cydweithio i gwblhau tasgau'n dda. Er enghraifft, wrth lywio a phedalu'r beic tandem a thrwy gymryd eu tro i osod darnau o'r trac pren ar gyfer y trenau.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth trwy gwblhau tasgau drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn hapus i sychu eu hwynebau a'u dwylo eu hunain ar ôl amser cinio ac maent yn dysgu helpu'r staff i roi'r teganau i ffwrdd a thacluso ar ddiwedd gweithgareddau.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn deall ac yn dilyn rhai o weithdrefnau'r lleoliad i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau a digwyddiadau ar ap diogel ar-lein. Anfonir yr adroddiadau hyn yn syth at rieni'r plant, sy'n cadarnhau pan fyddant wedi gweld yr adroddiad. Mae'r staff yn gwybod pa weithdrefn i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Fodd bynnag, nid yw’r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ers 2017.

Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fwyta ac yfed; maent yn annog y rhieni i ddarparu byrbrydau a chinio iach ar gyfer eu plant ac yn sicrhau bod y plant yn medru cael gafael ar eu poteli diod drwy gydol y dydd. Maent yn annog y plant i ymolchi eu dwylo pan fo angen ac yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i dreulio amser tu allan yn yr awyr iach, gan sicrhau eu bod yn datblygu eu sgiliau corfforol. Fodd bynnag, nid yw'r staff bob amser yn dilyn arferion gorau wrth newid clytiau plant gan nad ydynt yn newid ffedogau yn unol â canllawiau atal lledaenu haint.

Mae gan y staff gydberthnasau cadarnhaol gyda'r plant; maent yn siarad â nhw mewn ffordd garedig a thawel ac yn darparu cysur a sicrwydd pan fydd eu hangen ar y plant. Maent yn delio ag unrhyw anghytundebau neu ymddygiad anaddas yn gadarnhaol. Er enghraifft, trwy dynnu sylw'r plant neu roi anogaeth dyner ac ysgogiad os yw'r plant yn dangos unrhyw ymddygiad digroeso. Roedd y staff yn canmol y plant yn aml drwy gydol y dydd i'w hannog i ryngweithio ac ymddwyn yn gadarnhaol.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u hoffterau a chasbethau. Maent yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal, personol a meddygol unigol y plant cyn iddynt ddechrau mynychu’r lleoliad, sydd yn eu helpu nhw i gynllunio yn effeithiol i ddiwallu anghenion unigol. Mae'r staff yn tynnu lluniau rheolaidd o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn anfon y rhain at rieni gan ddefnyddio ap diogel ar-lein. Gall y rhieni ymateb i unrhyw sylwadau neu ofyn cwestiynau yn ôl eu dymuniad.

## Yr Amgylchedd

Yn gyffredinol, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau i ddarparu amgylchedd diogel i'r plant. Mae ganddynt asesiadau risg ysgrifenedig ar waith sy'n amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau ataliol ychwanegol a roddwyd ar waith yn ystod pandemig COVID-19 i helpu i leihau'r risg o ledaenu'r feirws. Fodd bynnag, nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu'r asesiadau risg hyn yn rheolaidd i fonitro a rheoli unrhyw beryglon posibl yn effeithiol. Er bod ymarferion tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi, nid oedd yr un ohonynt wedi'i gynnal ers mis Awst 2021 ac ychydig iawn o fanylion sydd yn y cofnodion. Mae asesiadau risg tân ar waith, ond nid yw'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardaloedd eang ac addas i'r plant chwarae a dysgu.  Maent yn darparu dewis priodol o deganau ac adnoddau i'r plant, ac mae'r rhain yn cael eu storio fel bod y plant yn gallu cael mynediad atynt yn annibynnol. Mae'r staff yn arddangos samplau o waith y plant ar yr hysbysfyrddau, gan roi ymdeimlad o berthyn a balchder yn eu cyflawniadau i'r plant.  Caiff yr holl ardaloedd eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn groesawgar i'r plant. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu dychymyg a'u sgiliau corfforol, gan gynnwys cegin fwd, offer dringo a chwch pren mawr.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ystod addas o deganau ac adnoddau i'r plant sy'n briodol i'w hoedran ac mewn cyflwr da. Mae amrywiaeth o offer ar gael i helpu'r plant i fod yn annibynnol, gan gynnwys grisiau, seddau toiled a photiau i'r plant sy'n hyfforddi gyda photi, ac ystod o wahanol brydau a chyllyll a ffyrc i helpu'r plant i ddysgu sut i fwydo eu hunain. Mae'r staff yn darparu rhai cyfleoedd i'r plant archwilio deunyddiau naturiol, er enghraifft trwy wneud collages o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Maent hefyd yn darparu digon o deganau pren, megis cegin chwarae, tai doliau a jig-sos, sy'n galluogi plant i brofi gwahanol ddeunyddiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Yn gyffredinol, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, ond mae angen gwelliant mewn perthynas â chyflogi staff a'r defnydd a wneir ohonynt. Maent wedi llunio datganiad o ddiben sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, gan alluogi rhieni i wneud penderfyniad gwybodus o ran a all y lleoliad ddiwallu eu hanghenion ac anghenion eu plentyn.   Yn gyffredinol, mae polisïau'n cynnwys yr wybodaeth ofynnol, ond nid yw'r rhain bob amser yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn awyddus i sicrhau eu bod yn cynnig gwasanaeth sy'n diwallu anghenion y rhieni a'r plant.  Gwnaethant gwblhau eu hasesiad gwasanaeth blynyddol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ac maent wedi llunio adroddiad ansawdd gofal blynyddol. Mae'r adroddiad yn nodi'r adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan y rhieni, eu plant a'r staff. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud hyd yma a'r rhai sydd yn yr arfaeth.

Mae angen i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad sicrhau bod yr unigolyn â gofal yn ychwanegol i'r cymarebau staff: plant er mwyn iddo allu goruchwylio a rheoli'r feithrinfa yn effeithiol. Nid oedd hyn bob amser yn wir yn ystod yr ymweliad arolygu gan fod yr unigolyn â gofal wedi'i gynnwys yn y cymarebau staffio yn ystod amser egwyl, amser cinio, a phan oedd y staff yn cyflawni tasgau eraill. Nid yw cymarebau staffio bob amser yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol gan mai dim ond dau aelod o staff oedd yn gofalu am wyth o blant 1-2 oed.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad bob amser yn dilyn arferion recriwtio diogel. Nid oedd gwybodaeth ar gael i gadarnhau addasrwydd staff yn llawn ac nid oedd unrhyw wybodaeth o gwbl ar gael ar gyfer aelod newydd o staff. Nid oedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ar gyfer pob aelod o staff. Nid oedd gan yr unigolyn cyfrifol dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ychwaith. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi derbyn hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth ynghylch y materion hyn.  Dywedodd y staff wrthym y gallant fynd at yr unigolyn cyfrifol ar unrhyw adeg i drafod unrhyw faterion neu eu hanghenion hyfforddi. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig yn dangos bod arfarniadau blynyddol wedi'u cynnal yn ogystal â chyfarfodydd staff rheolaidd.  Fodd bynnag, ni chadwyd cofnodion ffurfiol o gyfarfodydd goruchwylio staff un i un a gynhaliwyd rhwng yr arfarniadau blynyddol.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth gyda’r rhieni yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o wybodaeth a oedd wedi’i chasglu gan y rhieni yn nodi anghenion, hoffterau a chasbethau penodol y plant. Gwelsom hefyd sut mae gwybodaeth am amser y plant yn y lleoliad yn cael ei rhannu'n ddyddiol gyda’r rhieni gan ddefnyddio ap diogel ar-lein. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal y mae eu plentyn yn ei dderbyn ac yn dweud eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am amser eu plentyn yn y lleoliad.

**Argymhellion i fodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 – Dylai’r staff ddilyn y canllawiau rheoli heintiau diweddaraf ynghylch newid clytiau.

A2 – Dylai'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad sicrhau bod polisïau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

A3 – Rhaid i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad gofnodi pob cyfarfod goruchwylio staff un i un yn ogystal â'r arfarniadau blynyddol a'r cyfarfodydd staff.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 6 | Nid oes gan yr unigolyn cyfrifol dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Newydd |
| 28 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi dilyn arferion recriwtio diogel drwy sicrhau bod dogfennau digonol wedi'u coladu i ddangos addasrwydd y staff. | Newydd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| --- | --- | --- |
| 27 | Nid oedd y plant drwy'r amser yn cael eu goruchwylio'n briodol gan nifer digonol o staff â chymwysterau, sgiliau a phrofiad addas. | Newydd |
| 38 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal ac nid yw wedi adolygu asesiadau risg tân yn rheolaidd. | Newydd |
| 25 | Nid yw’r arweinwyr wedi sicrhau bod mesurau priodol ar waith i adolygu a monitro risgiau yn effeithiol. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 14/06/2022